OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 1776 (Cy.192)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) (Diwygio) 2003

Wedi'u gwneud	- -	*15 Gorffennaf 2003*
Yn dod i rym	- -	*31 Gorffennaf 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol—

Teitl, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) (Diwygio) 2003; maent yn gymwys i Gymru a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2003.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" yw Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001(**3**).

Diwygio'r prif Reoliadau

3. Diwygir y prif Reoliadau —

(a) yn rheoliad 2(1) —

(i) drwy roi yn lle'r diffiniad o "rhanbarthau penodedig", y diffiniad canlynol: "ystyr "rhanbarth penodedig" ("*specified region*") at ddibenion pwynt A o Atodiad VI i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1493/1999, yw'r holl ran honno o Gymru sydd wedi'i lleoli ar uchder llai na 220 metr uchlaw lefel y môr";

(ii) drwy fewnosod, yn y man priodol ar ei gyfer yn ôl trefn yr wyddor, y diffiniad canlynol -

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2001/2193 (Cy.155).

"mae "cynnyrch sector gwin" ("*wine sector product*"), at ddibenion y Rheoliadau hyn, yn cynnwys unrhyw win wedi'i bersawru;";

(iii) yn y diffiniad o "y Bwrdd Safonau Gwin" drwy roi yn lle'r geiriau "Cwmni'r Gwinyddion" y geiriau "cwmni cyfyngedig drwy warant sydd â'r Rhif cofrestru cwmni 1127386";

(b) yn rheoliadau 5, 6(1), 6(3)(a) a 6(4) ac Atodlen 3, drwy roi, yn ôl fel y digwydd, y geiriau "yn y rhanbarth penodedig" yn lle'r geiriau "yng Nghymru" a'r geiriau "o'r rhanbarth penodedig" yn lle'r geiriau "o Gymru";

(c) yn rheoliadau 5, 14 ac 16 drwy roi yn lle'r geiriau "rhanbarthau penodedig" y geiriau "rhanbarth penodedig";

(ch) drwy fewnosod ar ôl rheoliad 6 y rheoliadau canlynol —

"**Datganiadau Cynaeafu, Cynhyrchu, Trin a Marchnata**

6A. Rhaid i ddatganiadau sy'n cael eu cyflwyno bob blwyddyn at ddibenion Erthyglau 2 a 4 o Reoliad y Comisiwn (EC) 1282/2001 gymryd i ystyriaeth y meintiau a ddelir ar 1 Rhagfyr yn y flwyddyn honno.

Cyfoethogi

6B. Rhaid cyflwyno hysbysiad cyfoethogi fel y cyfeirir ato yn Atodiad V(G)(5) i Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999 i'r corff cymwys o leiaf 48 awr cyn dechrau'r weithred gyfoethogi.".

(e) drwy roi yn lle paragraff (1) o reoliad 8 y paragraff canlynol —

"**8.**—(1) Pan fydd swyddog awdurdodedig yn archwilio unrhyw gynnyrch sector gwin, caiff y swyddog awdurdodedig wahardd ei symud os oes ganddo reswm dros gredu

(a) bod tramgwydd wedi'i gyflawni, neu'n debyg o gael ei gyflawni mewn perthynas ag ef, drwy dorri unrhyw ddarpariaeth Gymunedol berthnasol y cyfeirir ati yng ngholofnau 1 neu 2 o Ran I, II, III, V neu IX o Atodlen 2 neu drwy fethu â chydymffurfio â hi;

(b) bod yna risg neu ei bod yn debyg y bydd yna risg i iechyd y cyhoedd mewn perthynas â'r cynnyrch hwnnw; neu

(c) bod y cynnyrch hwnnw wedi'i drin yn dwyllodrus neu'n debyg o gael ei drin yn dwyllodrus.".

(dd) drwy ddileu rheoliad 13;

(e) drwy roi yn lle Atodlen 1 yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

(f) yn eitem 1 o Ran I o Atodlen 2, drwy roi yn lle'r cofnod yng ngholofn 2 y geiriau —

"Rheoliad 884/2001: Pob erthygl ac eithrio 1, 2, 9, 17, 18, 20, 21, 22 a 23";

(ff) yn eitem 1 o Ran IV o Atodlen 2, drwy roi yn lle'r cofnod yng ngholofn 2 y geiriau

"Rheoliad 1282/2001: Erthyglau 2, 3, 4, 6 ac 11";

(g) drwy roi yn lle eitem 1 o Ran V o Atodlen 2, yr eitem ganlynol:

"**1.** Rheoliad 1493/1999: Teitl V	Rheoliad 883/2001: Pob erthygl ac eithrio 6, 7, 13, 16, 19, 29, 34, 35 a 36	Gofynion ynglŷn â masnachu â thrydydd gwledydd mewn

cynhyrchion yn y sector gwin”

(ng) yng ngholofn 1 o Atodlen 3, drwy ddileu'r seren o flaen enwau'r amrywogaethau canlynol: “Orion”, “Phoenix”, “Regent” a “Rondo (GM 6494/5)”;

(k) drwy ddileu Atodlen 4;

(i) yn eitem 2 o Atodlen 5 drwy roi

(i) yn lle'r geiriau “Cyfanswm Echdyniad Sych” y geiriau “Cyfanswm Echdyniad Sych Disiwgr”; a

(ii) yn lle “15 g/l”, “14 g/l”; a

(j) yn eitem 4 o Atodlen 5, drwy roi yn lle “5 g/l”, “4g/l”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

D.Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

15 Gorffennaf 2003

(**4**) 1998 p.38.

ATODLEN 1 Rheoliad 3(e)

"**ATODLEN 1** Rheoliad 2(1)

Y DARPARIAETHAU CYMUNEDOL

Y mesurau sy'n cynnwys y darpariaethau Cymunedol	*Cofnodolyn Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd: Y cyfeiriad*
1. Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 1135/70 ynghylch hysbysu, plannu ac ailblannu gwinwydd er mwyn rheoli datblygu plannu	OJ Rhif L134, 19.6.70, t.2 (OJ/SE1970(II) t.379)
2. Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 357/79 ynghylch arolygon ystadegol o arwynebeddau sydd o dan winwydd, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 2329/98 (OJ Rhif L29, 31.10.98, t.2)	OJ Rhif L54, 5.3.79, t.124
3. Deddf ynghylch amodau ymuno Gweriniaeth Groeg a'r addasiadau i'r Cytuniadau yn diwygio amrywiol Reoliadau ynghylch gwin yn sgil ymuno Groeg, a lofnodwyd ar 28 Mai 1979	OJ Rhif L291, 19.11.79, t.17
4. Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 1907/85 ar y rhestr o amrywogaethau o winwydd a'r rhanbarthau sy'n darparu gwin wedi'i fewnforio ar gyfer gwneud gwinoedd pefriol yn y Gymuned	OJ Rhif L179, 11.7.85, t.21
5. Deddf ynghylch amodau ymuno Teyrnas Sbaen a Gweriniaeth Portiwgal a'r addasiadau i'r Cytuniadau, a lofnodwyd ar 12 Mehefin 1985	OJ Rhif L302, 15.11.85, t.23
6. Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 3805/85 yn addasu Rheoliadau penodol ynghylch y sector gwin, oherwydd ymuno Sbaen a Phortiwgal	OJ Rhif L367, 31.12.85, t.39
7. Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2392/86 yn sefydlu cofrestr Gymunedol o winllannoedd, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1631/98 (OJ Rhif L210, 28.7.98, t.14) (**5**)	OJ Rhif L208, 31.7.86, t.1
8. Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 649/87 yn gosod rheolau manwl ar gyfer sefydlu cofrestr Gymunedol o winllannoedd fel y'i diwygiwyd gan	OJ Rhif L 62, 5.3.87, t.10

(**5**) Gweler hefyd y Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, Protocolau 1 (OJ Rhif L1, 3.1.94, t.37) a 47 (OJ Rhif L1, 3.1.94, t.210).